**CYNGOR SIR CEREDIGION**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Cabinet |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 14 Chwefror 2023 |
| **Teitl:** | Adroddiad Blynyddol Grŵp Datblygu Gofalwyr Rhanbarthol Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru 2021-2022 |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | Lluniwyd yr Adroddiad ar gyfer Llywodraeth Cymru er mwyn amlinellu'r cynnydd a wnaed o ran cyflawni blaenoriaethau Gofalwyr Llywodraeth Cymru gan Grŵp Datblygu Gofalwyr Rhanbarthol Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru (WWCDG) |
| **Er:** | Gwybodaeth |
| **Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Alun Williams, Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet ar gyfer Gydol Oes a Llesiant |

**CEFNDIR:**

Mae Gofalwyr yn ffrwd gwaith allweddol i Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru (RPB), ac y mae hyn yn adlewyrchiad o bwysigrwydd y grŵp poblogaeth yma o fewn cyfrifoldebau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Bydd yr adroddiad yma'n darparu crynodeb o weithgareddau Grŵp Datblygu Gofalwyr Gorllewin Cymru yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2021 – 31 Mawrth 2022. Mae Grŵp Datblygu Gofalwyr Gorllewin Cymru yn is-grŵp ffurfiol o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (Bwrdd Iechyd), tri Awdurdod Lleol Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro yn ogystal â sefydliadau gwirfoddol a thrydydd sector Gofalwyr yng Ngorllewin Cymru .

<u>Adroddiad Blynyddol Grŵp Datblygu Gofalwyr Gorllewin Cymru 2021/22</u>

Bu i Lywodraeth Cymru nodi yr hyn a ddisgwylir ganddynt o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru 2014) y bydd iechyd, awdurdodau lleol a'r trydydd sector yn cydweithio mewn partneriaeth i gefnogi Gofalwyr o dan y Ddeddf . Yn 2021 bu i Lywodraeth Cymru o dan eu Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-dâl nodi'r 4 blaenoriaeth isod:

- Adnabod a gwerthfawrogi gofalwyr di-dâl
- Darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth
- Helpu i fyw yn ogystal a gofalu
- Cefnogi gofalwyr di-dâl mewn addysg ac yn y gweithle.

**Y SEFYLLFA GYFREDOL:**

DEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT (CYMRU) 2014

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn parhau'n ymroddedig i ddarparu'r gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau gorau posibl i wella bywydau gofalwyr, ac i wella'n barhaus y gefnogaeth, y gwasanaethau a'r gydnabyddiaeth i ofalwyr yng Ngheredigion. Mae'r Ddeddf yn diffinio gofalwr fel "rhywun sy'n darparu gofal di-dâl neu'n bwriadu darparu gofal di-dâl i oedolyn neu blentyn anabl". Mae hyn wedi dileu'r gofyniad fod yn rhaid i ofalwyr di-dâl ddarparu "swm sylweddol o ofal yn rheolaidd."

Mae Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru wedi derbyn yr adroddiad ac yn unol â Chyfarwyddyd adrodd Llywodraeth Cymru, cyflwynwyd y ddogfen i Lywodraeth Cymru ac fe'i derbyniwyd.

| | | |
|---|---|---|
| | **Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam** | **Ddim yn ofynnol:** Adrodd ar gyflawniadau'r Grŵp Datblygu Gofalwyr Rhanbarthol Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru a'r cynnydd yn erbyn yr amcanion a'r targedau y cytunwyd arnynt. |
| **Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:** | ***Crynodeb:*** | |
| | **Hirdymor:** | Cydbwyso'r angen yn y tymor byr â'r un hirdymor a chynllunio ar gyfer y dyfodol |
| | **Integreiddio:** | Cael effaith gadarnhaol ar y bobl, yr economi, a'r amgylchedd a diwylliant a cheisio bod o fudd i'r tri |
| | **Cydweithio:** | Gweithio gyda phartneriaid eraill i gyflawni |
| | **Cynnwys:** | Cynnwys y rheiny â diddordeb a gofyn am eu barn |
| | **Atal:** | Rhoi adnoddau i atal problemau rhag digwydd neu waethygu |
| **Argymhelliad / Argymhellion:** | Er mwyn cefnogi Adroddiad Blynyddol Grŵp Gofalwyr Rhanbarthol Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru 2021-22 gofynnir i'r Cabinet nodi'r Adroddiad Blynyddol | |
| **Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:** | Nodi Adroddiad Blynyddol Grŵp Gofalwyr Rhanbarthol Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru 2021-2022 ar y sail iddo gael ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru yn unol â'r cyfarwyddyd penodol ac y mae yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet er gwybodaeth . | |
| **Trosolwg a Chraffu:** | Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach | |

| | |
|---|---|
| **Fframwaith Polisi:** | Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 |
| **Amcanion Llesiant Corfforaethol:** | Strategaeth Gorfforaethol 2017-2022<br>Galluogi Cydnerthedd Unigolion a Theuluoedd<br>Strategaeth Gydol Oed a Llesiant Ceredigion 2021-2027 |
| **Goblygiadau Cyllid a Chaffael:** | Dim |
| **Goblygiadau cyfreithiol:** | Dim |
| **Goblygiadau staffio:** | Dim |
| **Goblygiadau eiddo / asedau:** | Dim |
| **Risg(iau):** | Dim |
| **Pwerau Statudol:** | Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol A Llesiant (Cymru) 2014 |
| **Papurau Cefndir:** | Dim |
| **Atodiadau:** | Atodiad 1- Adroddiad Grŵp Datblygu Gofalwyr Gorllewin Cymru 21-22 |
| **Swyddog Arweiniol Corfforaethol:** | Elen James, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cymorth Cynnar |
| **Swyddog Adrodd:** | Iwan Davies, Rheolwr Corfforaethol: Ymyrraeth Gynnar |
| **Dyddiad:** | 29/11/22 |

# GORLLEWIN CYMRU IACHACH:

## Grŵp Datblygu
## Gofalwyr Gorllewin Cymru

Adroddiad Blynyddol

2021-22



## Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi gweithgareddau Grŵp Datblygu Gofalwyr Gorllewin Cymru (WWCDG) yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022. Mae'r WWCDG yn is-grŵp swyddogol i Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (y Bwrdd Iechyd), y tri Awdurdod Lleol, sef Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro, sefydliadau'r sector Gwirfoddol a'r Trydydd sector, yn ogystal â chynrychiolwyr defnyddwyr y gwasanaeth a gofalwyr yng Ngorllewin Cymru.

Mae’r adroddiad hwn yn cynnig trosolwg o’r gwaith a wnaed gan ddefnyddio gwahanol gyllid er mwyn sicrhau bod blaenoriaethau Gofalwyr wedi’u hymgorffori mewn gwasanaethau ar draws y rhanbarth yn unol â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae’r ffynonellau cyllid yn cynnwys: grant Gofalwyr a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, y Gronfa Gofal Integredig a chyllid craidd gan sefydliadau partner. Amlinellir disgwyliad Llywodraeth Cymru y bydd awdurdodau iechyd, awdurdodau lleol a’r trydydd sector yn gweithio mewn partneriaeth i gynorthwyo gofalwyr o dan y Ddeddf i gyflwyno’r pedair blaenoriaeth genedlaethol a amlinellwyd yn ei “Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-dâl” (Mawrth 2021):

- Adnabod a gwerthfawrogi gofalwyr di-dâl
- Darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth
- Helpu i fyw yn ogystal â gofalu
- Cefnogi gofalwyr di-dâl mewn addysg ac yn y gweithle.

Mae ymateb i’r gofynion uchod, a’r blaenoriaethau a bennwyd yn Strategaeth Gofalwyr ranbarthol Gorllewin Cymru, yn ffurfio sail Adroddiad Blynyddol Gofalwyr 2021/22, sy’n rhoi tystiolaeth o gynnydd mewn perthynas â phob un o’r meysydd hyn a’r budd a gafwyd gan ofalwyr di-dâl.

## Anghenion Gofalwyr yng Ngorllewin Cymru

Ym mis Ebrill 2017, cyhoeddodd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru ei Asesiad Poblogaeth cyntaf ar gyfer Gorllewin Cymru, ac yn dilyn hynny, mae wedi datblygu Cynllun Ardal Gorllewin Cymru 2018-2023. Casglwyd cryn dipyn o wybodaeth am anghenion y boblogaeth trwy ymgysylltiad uniongyrchol â dinasyddion. Ychwanegwyd at hyn gan y data a’r adborth gan ddinasyddion a gasglwyd yn ystod ein gwaith diweddar i ddatblygu strategaeth gofalwyr ranbarthol ar gyfer gorllewin Cymru.

Diweddarwyd yr Asesiad Poblogaeth yn ystod 2021/22, ond Cyfrifiad 2011 yw prif ffynhonnell data cyhoeddedig o hyd. Mae’n nodi bod mwy na 370,000 o ofalwyr di-dâl o bob oed yng Nghymru ac mae arbenigwyr wedi cyfrifo bod gofalwyr yng Nghymru wedi cyfrannu’r hyn sy’n cyfateb i oddeutu £8.1 biliwn i economi Cymru ym mhob blwyddyn. Mae’r ffigurau hyn yn cynnwys unrhyw rai sy’n darparu cyn lleied ag

awr o ofal yr wythnos. Ni fydd angen cymorth ychwanegol ar y rhan fwyaf o'r bobl sy'n treulio ychydig o amser yn unig yn gofalu. Fodd bynnag, mae gan Gymru hefyd y gyfran uchaf o ofalwyr hŷn a gofalwyr sy'n darparu mwy na 50 awr o ofal yr wythnos.

Fel llinell sylfaen, amcangyfrifwyd yng Nghyfrifiad 2011 fod mwy na 47,000 o ofalwyr di-dâl a oedd yn cynrychioli 12.5% o'r preswylwyr yng ngorllewin Cymru yn 2011. Nododd Asesiad Poblogaeth 2022 fod nifer y bobl sy'n dweud eu bod yn ofalwyr wedi cynyddu yn ystod y pandemig, ond mae nifer y gofalwyr hysbys yn is na'r niferoedd a amlygwyd yn y dadansoddiad o Gyfrifiad 2011. Mae hyn yn awgrymu bod bwlch sylweddol rhwng nifer y gofalwyr sy'n cael eu hadnabod a'u cynorthwyo, a'r nifer sy'n dweud eu bod yn ofalwyr di-dâl.

Disgwylir y bydd nifer y gofalwyr di-dâl yn cynyddu 2% rhwng 2020 a 2030 a disgwylir y bydd y gyfran dros 65 oed yn cynyddu 17%. Amcangyfrifir bod 30% o ofalwyr yn darparu gofal am 50 awr neu ragor yr wythnos, ond mae hyn yn cynyddu i 46% o ofalwyr 65 oed a throsodd. Dengys amcanestyniadau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) y bydd nifer y bobl dros 85 oed yn cynyddu 27.8% rhwng 2021 a 2031, tra bydd y boblogaeth oedran gweithio yn gostwng 3.1% yn ystod yr un cyfnod. Mae hyn yn debygol o arwain at bwysau cynyddol i adnabod a chynorthwyo gofalwyr di-dâl.

Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar ofalwyr di-dâl. Mae dadansoddiad gan y gwasanaethau Gwybodaeth a Chymorth i Ofalwyr yn y rhanbarth wedi cadarnhau y gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer y ceisiadau am gymorth yn ystod y cyfnod hwn;

| Sir | Nifer y gofalwyr yn y gronfa ddata yn 2019/20 | Nifer y gofalwyr yn y gronfa ddata yn 2020/21 | Nifer y gofalwyr yn y gronfa ddata yn 2021/22 |
|---|---|---|---|
| Sir Gaerfyrddin | 4613 | 6071 | 6891 |
| Ceredigion | 1575 | 1849 | 2419 |
| Sir Benfro | 2679 | 2918 | 3357 |

Dangosodd Asesiad Poblogaeth 2022 a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol fod cyfanswm o 11,505 o ofalwyr hysbys yn rhanbarth Gorllewin Cymru, wedi'u hadnabod trwy bractisau meddygon teulu, y gwasanaethau cymdeithasol a lleoliadau addysg, bod tua 10,000 o'r rhain yn oedolion a bod mwy na 500 ohonynt yn ofalwyr ifanc. Ar ben hynny, nododd y Bwrdd Iechyd fod practisau meddygon teulu yn gwybod am 8,483 o ofalwyr di-dâl ar 31 Mawrth 2021. Ymhen blwyddyn, roedd hyn wedi cynyddu dros 2,000 (25%) ac erbyn Mai 2021, o ganlyniad i gyflwyno'r rhaglen frechu, roedd 3,000 o bobl ychwanegol wedi dweud eu bod yn ofalwyr di-dâl, sy'n gynnydd cyffredinol o fwy na 5,500 o ofalwyr di-dâl (64%) mewn cyfnod o 15 mis.

# Cynnydd a Datblygiadau Allweddol – 2021-22


## Ein Strategaeth Gofalwyr Gorllewin Cymru 2020-2025:

### Gwella Bywydau Gofalwyr




Yn ystod 2020/21, bu cryn dipyn o ymgysylltu â gofalwyr; i ddechrau trwy drafodaethau gweithdy rhanbarthol ac mewn awdurdodau lleol, ac yna symudwyd i ddatblygu arolwg ar-lein mewn ymateb i'r pandemig. Ymatebodd 558 o ofalwyr i'n harolwg ar-lein, gan gynnwys 18% a oedd yn ofalwyr ifanc o dan 18 oed.

Cyhoeddodd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru Ein Strategaeth Gofalwyr Gorllewin Cymru 2020-2025: Gwella Bywydau Gofalwyr ym mis Tachwedd 2020. Mae'r strategaeth wedi sefydlu pedwar maes blaenoriaeth allweddol sy'n edrych ar y tymor hwy ac yn nodi'r weledigaeth ar gyfer y pedair blynedd nesaf. Ar hyd ein strategaeth gofalwyr, rydym wedi defnyddio aelodau'r 'Teulu Jones' i'n helpu i feddwl am sut y gallai ein blaenoriaethau wneud gwahaniaeth i ofalwyr yn ein cymunedau. Nid teulu go iawn yw'r 'Teulu Jones' ond crëwyd y teulu i fod yn nodweddiadol o rai o'r bobl sy'n byw yn ardal Hywel Dda a'r mathau o rolau gofalu mewn teuluoedd.




Mae'r rhannau canlynol o'r adroddiad hwn yn amlinellu'r ffyrdd y buom yn cyflawni'r blaenoriaethau hyn a'r gwahaniaeth y maent wedi'i wneud i'r rheiny sydd â chyfrifoldebau gofalu.

# Dan sylw – Cynllun Buddsoddwyr mewn Gofalwyr (BmG)

Ar ran Grŵp Datblygu Gofalwyr Gorllewin Cymru, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi parhau i gyflwyno'r cynllun Buddsoddwyr mewn Gofalwyr rhanbarthol. Yn ogystal ag ariannu Swyddog Arweiniol Buddsoddwyr mewn Gofalwyr, mae'r Bwrdd Iechyd yn comisiynu cymorth rhanbarthol ar gyfer y cynllun, a gyflwynir trwy Ymddiriedolaeth Gofalwyr Croesffyrdd Gorllewin Cymru. Mae Buddsoddwyr mewn Gofalwyr yn darparu sylfaen ar gyfer gwaith gyda gweithwyr iechyd proffesiynol mewn lleoliadau sylfaenol, cymunedol ac ysbytai acíwt, a hynny er mwyn meithrin ymwybyddiaeth o anghenion gofalwyr. Fodd bynnag, yn wahanol i rai cynlluniau eraill, mae Buddsoddwyr mewn Gofalwyr wedi'i gynllunio i gael ei ddefnyddio gan amrywiaeth eang o leoliadau, gan gynnwys ysgolion, llyfrgelloedd, timau awdurdodau lleol, Canolfan Byd Gwaith a sefydliadau trydydd sector.

Mae'r Cynllun yn galluogi lleoliadau i symud trwy dair lefel, sef efydd, arian ac aur ac yn ystod y pandemig, anogwyd lleoliadau i gasglu eu tystiolaeth a'i chyflwyno'n electronig. Un o elfennau craidd y cynllun yw darparu system syml sy'n galluogi gofalwyr di-dâl i ymgofrestru fel gofalwyr gyda'u meddyg teulu, sydd yn ei dro yn achosi atgyfeiriad i'w gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr lleol sy'n gallu darparu gwybodaeth a chymorth ychwanegol. Gan fod y broses ailddilysu wedi mynd heibio'i dyddiad, cynhaliodd y tîm Buddsoddwyr mewn Gofal ddigwyddiad ymgynghori i gasglu adborth ym mis Hydref ac ailwampiwyd y broses i'w symleiddio heb amharu ar uniondeb y cynllun.

## Yr hyn a gyflawnwyd yn ystod 2021/22

- **11** o leoliadau wedi cyflawni Gwobr Buddsoddwyr mewn Gofalwyr newydd (**11** ar lefel Efydd), **2** leoliad wedi'u hailddilysu ar lefel efydd ac **1** ar lefel arian.
- Ar hyn o bryd, mae lleoliadau eraill yn gweithio tuag at y lefel efydd, gydag **20** o leoliadau yn gweithio tuag at y lefel Arian a **6** yn gweithio tuag at y lefel Aur. Mae cyfanswm o **200** o leoliadau (er mis Mawrth 2013) wedi cyflawni gwobrau efydd Buddsoddwyr mewn Gofalwyr, **8** wedi cyflawni gwobrau Arian a **3** wedi cyflawni gwobrau Aur.
- Bu'n rhaid i rai lleoliadau ailflaenoriaethu oherwydd y pandemig, fodd bynnag, rhoddir cymorth mewn ffyrdd gwahanol i leoliadau barhau i weithio tuag at achrediad neu gynnal eu lefel bresennol.
- **11,505** o ofalwyr wedi'u cofrestru gyda meddygfeydd ar draws ardal y bwrdd iechyd.
- **776** o ofalwyr wedi'u hatgyfeirio i'r gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr trwy'r broses cofrestru ac atgyfeirio yn y meddygfeydd
- Bu cynnydd yn nifer y gofalwyr a gofrestrwyd gan feddygon teulu ym Mawrth 2021 o ganlyniad i ymgyrch y bwrdd iechyd i adnabod gofalwyr di-dâl i gael eu brechu.



Tîm Nyrsys Admiral yn derbyn eu tystysgrif lefel efydd



Tîm Camddefnyddio Sylweddau Sir Gaerfyrddin yn derbyn eu tystysgrif lefel efydd


**Digwyddiadau Arweinwyr Gofalwyr**

Mae pob sefydliad, tîm ac adran sy'n cymryd rhan yn y cynllun Buddsoddwyr mewn Gofalwyr wedi nodi Arweinydd Gofalwyr. Cynhaliwyd digwyddiadau rheolaidd ar gyfer Arweinwyr Gofalwyr trwy gydol y flwyddyn er mwyn dod â lleoliadau gwahanol ynghyd a darparu cyfle ar gyfer cymorth gan gyfoedion, dysgu ar y cyd a chael yr wybodaeth ddiweddaraf am fentrau lleol newydd. Yn ystod y flwyddyn, cyflwynwyd 94 o sesiynau trwy MS teams i gyfanswm o 988 o gynrychiolwyr:

• 62 o sesiynau (509 o gynrychiolwyr) wedi'u cyflwyno gan aelodau unigol o'r tîm Buddsoddwyr mewn Gofalwyr i leoliadau penodol sy'n ymwneud â'r cynllun.
• 9 sesiwn Ymwybyddiaeth o Ofalwyr (151 o gynrychiolwyr) yn rhan o'r hyfforddiant galw heibio rheolaidd i'r staff ehangach. Cyflwynwyd y sesiynau hyn hanner ffordd trwy'r flwyddyn.
• 23 o ddigwyddiadau penodol ar gyfer Arweinwyr Gofalwyr wedi'u cyflwyno (328 o gynrychiolwyr).

Roedd yr adborth gan y cyfranogwyr yn cynnwys:

*'Roedd dysgu am yr ystadegau yn ddiddorol iawn ac yn agoriad llygad. Diolch am hyfforddiant gwych.'*
*'Ar ôl dilyn y cwrs hwn, rwy'n fwy ymwybodol o ofalwyr/ofalwyr di-dâl a sut y gallwn eu helpu. Mae'n gwrs campus.'*




## Gwneud gwahaniaeth i Ofalwyr

**1.** Improve the early identification and self-identification of Carers, including Young Carers and Young Adult Carers.

**2.** Ensure a range of services is available to support the well-being of Carers of all ages, in their life alongside caring.



A dweud y gwir, dydw i erioed wedi meddwl amdanaf fy hun fel gofalwr. Fy rhieni ydyn nhw wedi'r cyfan ac mae'n rhaid edrych ar eu hôl nhw wrth iddyn nhw heneiddio. Bues i'n sôn wrth un o staff y llyfrgell leol am fy mam ac fe wnaeth i mi sylweddoli fy mod i'n ofalwr. Ces i lawer o wybodaeth ganddyn nhw am y cymorth a'r gefnogaeth sydd ar gael."



## Dan sylw – cysylltiadau â gwasanaethau statudol a gwasanaethau a gomisiynir

Mae gan y Bwrdd Iechyd gyllideb graidd fach a phenodedig i gefnogi comisiynu cymorth penodol ar gyfer gofalwyr di-dâl, yn unol â'r dyletswyddau statudol a bennwyd yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Yn ardal Hywel Dda, darperir cymorth i ofalwyr di-dâl yn bennaf gan bartneriaid o'r trydydd sector ac mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod y gwerth cymdeithasol ychwanegol y gall cydweithio â sefydliadau elusennol ei gynnig.

Mae'r Gwasanaethau Gwybodaeth i Ofalwyr wedi parhau i dderbyn atgyfeiriadau a chynnig cymorth un i un i ofalwyr di-dâl ledled ardal Hywel Dda. Er bod y pandemig wedi effeithio ar fodelau darparu gwasanaethau, mae rhai sefydliadau wedi gallu ailgydio mewn gweithgareddau wyneb yn wyneb ac mewn grwpiau bach yn unol â'r canllawiau cenedlaethol. Isod, mae trosolwg o weithgareddau ein gwasanaethau a gomisiynir yn seiliedig ar ddata monitro contractau ar gyfer 2021/22.

### Trosolwg o'r cymorth a ddarparwyd gan y Gwasanaethau a Gomisiynir i Ofalwyr (Ebrill 2021-Mawrth 2022)

Crynodeb o'r data gan ein gwasanaethau a gomisiynir:

- **Ymddiriedolaeth Gofalwyr Croesffyrdd Gorllewin Cymru** – Gwasanaeth Gwybodaeth, Allgymorth a Gofalwyr Ifanc
- **Adferiad Recovery** – Gwasanaeth Gofalwyr Sir Benfro
- **Gofalwyr Ceredigion Carers** – Gwasanaeth Allgymorth
- **Gweithredu Dros Blant** – Gwasanaethau i Ofalwyr Ifanc yng Ngheredigion a Sir Benfro

"Alla i ddim dweud pa mor falch ydw i fy mod i wedi ticio'r blwch yn y feddygfa i ddweud bod angen cefnogaeth Allgymorth arnaf – 100% yn falch"

"Gall geiriau ddim cyfleu'r gwahaniaeth rydych chi wedi'i wneud i ni fel teulu"

"Rwy'n ddiolchgar iawn am yr holl wybodaeth a gefais gennych ac am wybod bod rhywun yn gefn i mi"

"Diolch am y daleb, rwy wrth fy modd. Roeddech yn garedig iawn yn anfon un ataf, does dim llawer gan fy Mam ac rwy'n gwybod bod y Nadolig yn gyfnod anodd iawn iddi"

**Geiriau ein Gofalwyr**



**Prif Ganfyddiadau**

**1377** o **ofalwyr newydd sy'n oedolion** wedi cysylltu â'n gwasanaethau

**3332** o ofalwyr sy'n oedolion wedi **cael cymorth gweithredol.**

**163** o **ofalwyr ifanc newydd** wedi cysylltu â'r Gwasanaeth Gofalwyr Ifanc.


**1198** o ofalwyr ifanc wedi **cael cymorth gweithredol.**

## Gwneud gwahaniaeth i ofalwyr

**1.** Improve the early identification and self-identification of Carers, including Young Carers and Young Adult Carers.

**2.** Ensure a range of services is available to support the well-being of Carers of all ages, in their life alongside caring.

**3.** Support Carers to access and maintain education, training and employment opportunities.



## Dan sylw – cynllunio ar gyfer rhyddhau o’r ysbyty


Mae'r Bwrdd Iechyd a'r awdurdodau lleol sy’n bartneriaid iddo wedi defnyddio dull system gyfan i gefnogi ac ymgysylltu â gofalwyr yn y broses o gynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion, a sicrhau yr eir ati i roi Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA) i bob gofalwr. Mae Swyddogion Gofalwyr (sy'n gyflogeion y trydydd sector) wedi'u lleoli ym mhob ysbyty oddi ar fis Ionawr 2020, i gefnogi gofalwyr a staff. Mae gan y Swyddogion Gofalwyr rôl benodol o ran cefnogi staff i adnabod gofalwyr yn gynnar, galluogi mwy o gyfraniad at y broses cynllunio ar gyfer rhyddhau, a sicrhau darparu gwybodaeth a chymorth yn weithredol. Mae’r gwasanaeth hwn yn rhan o gontinwwm ehangach o gymorth a gynigir i ofalwyr di-dâl y mae angen cymorth arnynt i reoli gofal cyn derbyn claf i'r ysbyty, yn ogystal â gofal ar ôl ei ryddhau.

Mae’r Swyddogion Gofalwyr hefyd yn cydweithio’n agos â’r Swyddogion Cyswllt â Theuluoedd ym mhob ysbyty sy’n atgyfeirio cleifion a’u teuluoedd i’r Swyddogion Gofalwyr ar gyfer cymorth penodol i ofalwyr. Pan gyfyngwyd mynediad i’r ysbytai yn ystod y pandemig, rhoddwyd hyfforddiant a chymorth o bell, gan fanteisio i’r eithaf ar dechnoleg ddigidol. Roedd hyn yn cynnwys hyrwyddo’r hyfforddiant e-ddysgu Ymwybodol o Ofalwyr. Mae’r ffeithlun yn dangos ffigurau allweddol ynghylch y prosiect yn 2021/22.




Lansiwyd yr hyfforddiant e-ddysgu Ymwybodol o Ofalwyr ym mis Tachwedd 2018 gan Gofal Cymdeithasol Cymru ac mae wedi’i raeadru i staff sy’n gweithio mewn gwasanaethau statudol ac anstatudol mewn nifer o wahanol ffyrdd. Yn ystod 2021/22, roedd **243** o staff yn ardal Hywel Dda wedi cwblhau’r e-ddysgu.

### Gwneud gwahaniaeth i Ofalwyr



“Roedd y cymorth a ddarparwyd gan y Swyddog Gofalwyr pan oedd fy mam yn yr ysbyty wedi helpu fy llesiant meddyliol ac emosiynol ar adeg brysur ac ansicr iawn”

1. Improve the early identification and self-identification of Carers, including Young Carers and Young Adult Carers.

2. Ensure a range of services is available to support the well-being of Carers of all ages, in their life alongside caring.



# Dan sylw – cynorthwyo Gofalwyr Ifanc

Mae sicrhau bod gofalwyr o bob oed yn gallu cael eu hadnabod a hunanadnabod yn gynnar yn y broses yn bwysig o ran sicrhau mynediad iddynt at y cymorth y mae ganddynt hawl i'w gael ac a fydd o gymorth i'w hiechyd a'u llesiant. Mae rhai o'r camau a gymerwyd yn cynnwys:

- Cyflwynwyd y cerdyn adnabod cenedlaethol i ofalwyr ifanc yn ardal y tri awdurdod lleol. Lluniwyd y cerdyn i alluogi gofalwyr ifanc i roi gwybod eu bod yn ofalwyr mewn meddygfeydd, ysbytai ac ysgolion.
- Gweithiodd Uned Gofalwyr Ceredigion ochr yn ochr â'r Gwasanaeth Ieuenctid, Gweithredu Dros Blant a'r cwmni theatr lleol Arad Goch, i greu ffilm ynghylch profiadau gofalwr ifanc. Bydd y ffilm yn helpu gofalwyr ifanc i sylweddoli eu bod yn ofalwyr a deall sut y gall eu rôl ofalu effeithio ar eu bywyd o ddydd i ddydd.
- Yn ogystal, bu gofalwyr ifanc yng Ngheredigion yn cyfrannu at ddiwygio ac ail-greu cynnwys y llyfryn i ofalwyr ifanc yn y rhanbarth, sef "Pwy sy'n Gofalu". Defnyddiwyd eu barn a'u hadborth i sicrhau bod y llyfryn yn cynnwys gwybodaeth a fyddai'n berthnasol ac yn ddefnyddiol iddynt.
- Gwahoddwyd gofalwyr ifanc o Sir Benfro i Folly Farm i fwynhau noson yn Ffair yr Oes a Fu. Roedd Gweithredu Dros Blant yn dathlu deng mlynedd o gymorth i ofalwyr ifanc yn y sir a manteisiwyd ar y cyfle i lansio'r cerdyn adnabod gofalwyr ifanc ar yr un pryd, gyda 130 o ofalwyr ifanc yn ymuno â'r cynllun.
- Trefnodd Gweithredu Dros Blant ymgynghoriad er mwyn i ofalwyr ifanc yn Sir Benfro roi eu barn a'u hadborth ar y cerdyn adnabod cenedlaethol i ofalwyr ifanc.
- Gwahoddwyd gofalwyr ifanc o Sir Benfro i ddod i'r Senedd i gyfarfod â'r Dirprwy Weinidog lle cawsant gyfle i ddangos eu cerdyn adnabod, rhannu eu profiad o'i ddefnyddio a sôn am y manteision.
- Mae cydlynydd Gweithredu Dros Blant yn aelod o Fforwm Darparwyr i Ofalwyr Sir Benfro a Bwrdd Strategaeth Gofalwyr Sir Benfro ac mae'n manteisio ar bob cyfle i hyrwyddo'r cerdyn adnabod gofalwyr ifanc a chynyddu ymwybyddiaeth ohono.



"...Cawsom amser gwych! 'Alla i ddim credu bod cynllun mor anhygoel ar waith i alluogi plant i fod yn rhan o weithredu dros blant. Rwy'n ddiolchgar dros ben. Diolch o galon"
- *Defnyddiwr gwasanaeth*

Gwneud gwahaniaeth i Ofalwyr

**1.** Improve the early identification and self-identification of Carers, including Young Carers and Young Adult Carers.

**2.** Ensure a range of services is available to support the well-being of Carers of all ages, in their life alongside caring.

# Dan sylw – Gwydnwch Gofalwyr

Mae’r pandemig wedi effeithio ar fynediad at systemau cymorth traddodiadol i ofalwyr, megis gwasanaethau dydd a gwasanaethau seibiant preswyl. Darparwyd atebion arloesol a chreadigol i ofalwyr â chymorth ein partneriaid yn y trydydd sector a Fforwm Gofalwyr Sir Gaerfyrddin. Cafodd gofalwyr gymorth i gael hyd i atebion sy’n addas iddynt, i gael seibiant o’u rôl ofalu gyda’r sawl sy’n cael gofal ganddynt neu hebddo. Cyflwynwyd rhaglen amrywiol o grantiau i ofalwyr ar hyd 2021-22, a fu’n helpu gofalwyr i gael mynediad at grantiau bychain ar gyfer gwelliannau i’r cartref er mwyn amddiffyn amser gwerthfawr i orffwyso ac ymlacio, cronfeydd gwydnwch ar gyfer gofal sesiynol neu nosweithiau oddi cartref, arian i oresgyn rhwystrau sy’n atal mynediad at seibiant, megis cyfarpar a thrafnidiaeth, cymorth i gyllido digwyddiadau a chyfleoedd i ofalwyr a gyflwynir gan y trydydd sector a grwpiau a arweinir gan y gymuned, a chyllid sy’n cefnogi cymorth gan gymheiriaid ar gyfer grwpiau arbenigol megis Niwed i’r Ymennydd sy’n gysylltiedig ag Alcohol, Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu.

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi parhau i gomisiynu Prosiect Gwydnwch Gofalwyr ar y cyd ag Ymddiriedolaeth Gofalwyr Croesffyrdd Gorllewin Cymru, gan ddarparu pwynt mynediad sengl i ofalwyr sy’n chwilio am gymorth â’u rôl ofalu. Mae’r prosiect yn cysylltu gofalwyr â gweithiwr allweddol penodedig er mwyn nodi cyfleoedd i hybu eu llesiant a rhoi cymorth iddynt barhau â’u rôl ofalu. Mae’r prosiect yn cynnig llwybr ar gyfer nodi anghenion ar lefelau isel, canolradd ac uchel ac mae’r gweithiwr allweddol yn cydlynu ystod lawn o ddewisiadau megis atebion ataliol a gyflwynir gan bartneriaid yn y trydydd sector, atebion o ran technoleg, Taliadau Uniongyrchol i Ofalwyr o dan Amgylchiadau Eithriadol, amrywiaeth o grantiau seibiant a gwydnwch a llwybrau at wasanaethau statudol.

Mae Cyngor Sir Penfro hefyd wedi bod yn gweithio i sicrhau bod modd cynnig cymorth i ofalwyr trwy’r pandemig trwy amryw o gynlluniau gwahanol. Mae hyn wedi cynnwys:- grantiau gofalwyr unigol pwrpasol ar gyfer pob gofalwr a ddefnyddiwyd ar gyfer seibiannau amgen; datblygu’r Cerdyn Cydnabyddiaeth i Ofalwyr sy’n fodd bellach i ofalwyr gael lluniaeth a pharcio am ddim ym Maenordy Scolton; twf parhaus prosiect Catalyddion Gofal sy’n cefnogi datblygu microfentrau a mentrau cymdeithasol er mwyn rhoi mwy o ddewis a rheolaeth i bobl pan fyddant yn cael gofal a chymorth. Yn ogystal, mae’r prosiect Cyflogaeth â Chymorth wedi bod yn gweithio gyda gofalwyr i’w helpu i ailafael mewn cyflogaeth a/neu gadw eu cyflogaeth.

Mae’r Bwrdd Iechyd hefyd wedi cyflwyno **chwe** chwrs rhithwir Gofalu Amdanaf Fi gyda **34** o ofalwyr yn cwblhau cwrs I2LAM.

## Gwneud gwahaniaeth i Ofalwyr

**1.** Improve the early identification and self-identification of Carers, including Young Carers and Young Adult Carers.

**2.** Ensure a range of services is available to support the well-being of Carers of all ages, in their life alongside caring.



# Dan sylw – Cynllun Arloesi Rhanbarthol i Ofalwyr

Lansiwyd Cronfa Arloesi Cymorth Rhanbarthol i Ofalwyr ym mis Hydref 2020 gyda chyllid o'r Gronfa Gofal Integredig er mwyn cynnig cyfleoedd i sefydliadau'r trydydd sector gael mynediad at gyllid byrdymor i dreialu gweithgareddau a gwasanaethau newydd i gefnogi gofalwyr ledled Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro. Mae'r gronfa'n cefnogi gweithgareddau o dan bedair blaenoriaeth y Strategaeth Gofalwyr. Yn ystod 2021-22, gweinyddwyd tair rownd o'r gronfa hon gan Gymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (PAVS), mewn cydweithrediad â Chymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin (CAVS) a Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO). Gwahoddwyd ceisiadau i roi sylw i'r prif themâu sy'n cyd-fynd â'r strategaeth gofalwyr ranbarthol. Darparodd y gronfa hyd at 100% o'r costau refeniw a dyfarnwyd hyd at £5,000 ar gyfer prosiectau mewn un ardal sirol a hyd at £15,000 ar gyfer prosiectau rhanbarthol. Roedd yn rhaid i'r ceisiadau gyd-fynd â blaenoriaethau'r Strategaeth Gofalwyr, dangos gwerth am arian, a dangos buddion amlwg ac uniongyrchol i ofalwyr di-dâl, ac anogwyd arian cyfatebol.

## Canlyniadau'r cynllun

Yn ystod 2021-22, ariannwyd cyfanswm o **12** o brosiectau sirol a **6** phrosiect rhanbarthol, gan gynnwys

- Hyfforddiant llesiant i ofalwyr di-dâl, gan gynnwys colled a galar (CTCWW)
- Therapïau amgen a gweithgareddau llesiant (Ceredigion)
- Gofal Parhaus i Ofalwyr – gwasanaeth seibiant yn y cartref (Shalom House)
- Cynllun peilot Gwasanaeth Dydd Dementia sy'n dechrau'n Ifanc (Tŷ Hapus)
- Gofalu a Rhannu 2 – diwrnodau seibiant ac encil, Holistic Yoga Care Wales
- Prosiect Gofalwyr Men2Men, sy'n darparu seibiant i ddynion sy'n ofalwyr di-dâl trwy weithdai natur, gwaith coed, ffotograffiaeth, coginio.
- Cwrs 20 wythnos o hyd mewn ymwybyddiaeth ofalgar a llesiant i ofalwyr (Adferiad Recovery)
- Sesiynau ymarfer Cryfder a Llesiant i Ofalwyr (Pembrokeshire Weightlifting)
- Sesiynau gweithgareddau wythnosol mewn celf, crefftau a therapïau i ofalwyr pobl sy'n byw gyda dementia (RAY Ceredigion)
- Gweithgareddau i gefnogi gofalwyr pobl â chyflyrau iechyd meddwl (VC Gallery, MIND Sir Gâr)
- Cynorthwyo gofalwyr ifanc i feithrin gwydnwch a chreu rhwydwaith cymorth cadarn (Cymdeithas Cymuned Aberdaugleddau)
- Prosiect "Kushti Divvus/Good Day!" sy'n adnabod gofalwyr cudd yn y gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr (Tros Gynnal Plant)

## Gwneud gwahaniaeth i Ofalwyr

**1.** Improve the early identification and self-identification of Carers, including Young Carers and Young Adult Carers.

**2.** Ensure a range of services is available to support the well-being of Carers of all ages, in their life alongside caring.

# Dan sylw – cydweithio i gefnogi Gofalwyr

Yn ystod 2020/21, sefydlwyd **grŵp cymorth gan gymheiriaid ar gyfer staff y Bwrdd Iechyd** sy'n ofalwyr a hynny fel prosiect peilot yn y lle cyntaf. Mae'r grŵp hwn wedi parhau yn 2021/22. Rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2022 cynhaliwyd 25 o gyfarfodydd rhithwir gyda chyfanswm o 86 o staff o bob rhan o'r Bwrdd Iechyd yn bresennol ynddynt. Bu'r sesiynau'n gyfle i gael cymorth anffurfiol gan gymheiriaid ynghyd â chyflwyniadau gan siaradwyr gwadd, e.e. ynghylch cyflwyno'r polisi gofalwyr, sesiwn ymwybyddiaeth ofalgar ac eiriolaeth.

Mae Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (PAVS) wedi rhoi cymorth rhagweithiol i gyflwyno amryw o brosiectau, gan gynnwys arwain y gwaith o greu **Llwyfan Rhanbarthol i Ofalwyr**. Bydd y wefan hon yn cynnig un fynedfa ar-lein i ofalwyr at gyngor a chefnogaeth i'w helpu â'u rôl ofalu ble bynnag y byddant yn byw yn y rhanbarth. Ffurfiwyd Grŵp Llywio'r Llwyfan Rhanbarthol i Ofalwyr, sy'n cynnwys aelod o staff o Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro sy'n cydweithio i gefnogi'r wefan.


Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi ymgymryd â **rhaglen benodedig o hyfforddiant**, ar y cyd ag Ymddiriedolaeth Gofalwyr Croesffyrdd Gorllewin Cymru, a gyflwynwyd yn benodol i roi mwy o sylw i ofal di-dâl. I ddechrau, cynhaliwyd yr hyfforddiant yn rhan o Wythnos Gofalwyr, ond gan fod cystal croeso iddo, fe barhaodd tan fis Mawrth 2022. Bu'r sesiynau o gymorth i'r staff gydnabod gofal di-dâl, effaith bosibl rôl ofalu a sut y gallent helpu gofalwyr trwy eu cyfeirio at wasanaethau gofalwyr. Roedd nifer o'r 150 o staff a hyfforddwyd yn ymwneud yn uniongyrchol â chwsmeriaid. Dywedodd yr holl staff a lanwodd ffurflen werthuso'r hyfforddiant (63) fod yr hyfforddiant 'yn ddefnyddiol iawn' a dywedodd 98% ohonynt fod eu hymwybyddiaeth o ofalwyr a'u dealltwriaeth ohonynt wedi gwella.

Mae'r **Fforymau Darparwyr i Ofalwyr ym mhob Sir** wedi parhau i gyfarfod yn rheolaidd, gyda nifer da o bartneriaid statudol, comisiynwyr a darparwyr o'r trydydd sector yn bresennol ynddynt, i rannu arferion gorau ac annog cydweithio i ddatblygu gwasanaethau i ofalwyr.

Yn Sir Benfro, **sefydlwyd Fforwm Llais Gofalwyr** ym mis Ionawr 2022, i gynnig ffordd i ofalwyr ymwneud â dylunio a datblygu cymorth i ofalwyr. Hwylusir y fforwm gan PCISS a PAVS.

Yn Sir Benfro hefyd, mae partneriaid wedi bod yn gweithio i **helpu gofalwyr trwy'r pandemig**. Bu hyb Cyflenwi Darparwyr Cyngor Sir Benfro yn cyflenwi cyfarpar diogelu personol i ofalwyr ac mae'r Hyb Cymunedol wedi bod yn cynnig cymorth pwrpasol i ofalwyr. Cysylltodd yr Hyb Cymunedol â gofalwr a gafodd atgyfeiriad gan y gwasanaeth Olrhain Cysylltiadau ar ôl cael cyfarwyddyd i hunanynysu. Ar ôl trafod, rhoddwyd cyfrifiadur llechen i'r gofalwr er mwyn cadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau a chymorth i lenwi ffurflen gais Lwfans Gofalwr. Gwnaed atgyfeiriad i Fanc Bwyd Anifeiliaid Anwes Cariad i'w helpu i ofalu am ei anifail, gan ei fod mewn trafferth ariannol tra oedd ei fudd-daliadau'n cael eu trefnu. Gan feddwl am y cymorth a gafodd, dywedodd:


"Pan ddwedwyd bod rhaid i mi hunanynysu, fe es i banig. Ro'n i'n teimlo bod fy myd yn chwalu. Roedd cynifer o bethau y tu hwnt i'm rheolaeth ... ro'n i'n teimlo wedi fy ynysu'n llwyr. Cyn gynted ag y ces i air â'r Hyb, teimlais fod cymorth ar gael yno ar unwaith. Fe ddihunais y bore wedyn gan feddwl mai breuddwyd oedd hi, bod y problemau hyn wedi cael eu datrys drosof fi. Rwy'n methu aros i fod mewn sefyllfa i ad-dalu'r cymorth a gefais. Ni allaf ond diolch i bawb am y cymorth a'r gefnogaeth a gynigiwyd. Fe wnaeth gymaint o wahaniaeth i mi a'm teulu."




Yn Sir Benfro, cydgynhyrchwyd **Cerdyn Ymwybodol o Ofalwyr** ar gyfer gofalwyr pobl sy'n byw gyda dementia mewn ymateb i'r angen am gymorth ar gamau cynnar y daith ddementia, yn ystod y sgyrsiau cyntaf â'r Meddyg Teulu am gof/ymddygiad eu hanwyliaid, cyn cael diagnosis. Datblygwyd y cerdyn yn sgil sgyrsiau a sesiynau cydlunio uniongyrchol â gofalwyr yn Sir Benfro, mewn partneriaeth rhwng PAVS, yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr a Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru. Dyluniwyd y cerdyn gan ofalwyr ar gyfer gofalwyr. Mae meddygfeydd meddygon teulu ledled Sir Benfro a'r clinigau asesu'r cof i gyd yn dosbarthu'r cardiau i deuluoedd cleifion.

Mae tîm Amrywiaeth a Chynhwysiant y Bwrdd Iechyd wedi bod yn gweithio gydag Ymddiriedolaeth Gofalwyr Croesffyrdd Gorllewin Cymru a Theithio Ymlaen i ymgysylltu â'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr, gan helpu i gynyddu ymwybyddiaeth o rolau gofalu di-dâl. Bu'r tîm hefyd yn edrych ar ffyrdd newydd o gynyddu ymwybyddiaeth o ofalwyr di-dâl ymhlith grwpiau eraill agored i niwed megis Cyn-filwyr y Lluoedd Arfog ac unigolion sydd â Nam ar y Synhwyrau a rhai sy'n Camddefnyddio Sylweddau.

"Mae problemau o ran llythrennedd yn golygu bod hi'n anodd i'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr gael mynediad at wybodaeth. Mewn cyfarfod rhwng yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr, Teithio Ymlaen a'r Bwrdd Iechyd, bu modd esbonio'r cymorth sydd ar gael i'r menywod a oedd yn bresennol a'u helpu i lenwi ffurflenni. Roedd gallu cwrdd fel grŵp gyda phobl yr oeddent yn ymddiried ynddynt yn werthfawr dros ben gan fod y menywod yn teimlo'n ddiogel ac yn gallu gofyn cwestiynau."




## Gwneud gwahaniaeth i Ofalwyr

**1.** Improve the early identification and self-identification of Carers, including Young Carers and Young Adult Carers.

**2.** Ensure a range of services is available to support the well-being of Carers of all ages, in their life alongside caring.

Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
West Wales Care Partnership



# Dan sylw – Cyflogwyr i Ofalwyr

Mae Grŵp Datblygu Gofalwyr Gorllewin Cymru yn cymryd rhan yng nghynllun Cyflogwyr i Ofalwyr Gofalwyr Cymru trwy aelodaeth ambarél a gafodd ei hymestyn am ddwy flynedd bellach. Mae pob sefydliad partner unigol wedi symud ymlaen â chamau gweithredu penodol, yn ychwanegol at gydweithredu yn rhan o Grŵp Llywio rhanbarthol.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi symud ymlaen â nifer o gynlluniau mewnol, gan gynnwys:

- Cyflwyno tystiolaeth ar gyfer Lefel 2 Hyderus ynghylch Cyflogwyr i Ofalwyr, gan adeiladu ar ddyfarniad Lefel 1 a gyflawnwyd yn 2020.
- Cyfathrebu ynghylch Polisi Gofalwyr y Bwrdd Iechyd a'r pasbort ar gyfer staff
- Cynnal hyfforddiant cynyddu ymwybyddiaeth a dargedwyd â staff y gweithlu sy'n cefnogi rheolwyr a chyflogeion
- Annog staff sydd â chyfrifoldebau gofalu i rannu eu barn a'u profiadau
- Parhau i gynnal sesiynau Grŵp Cymorth gan Gymheiriaid i Staff sy'n Ofalwyr.
- Hyrwyddo ymwybyddiaeth trwy rannu storïau personol; rhannodd aelod o'r grŵp hwn ei stori i gyd-fynd â Diwrnod Hawliau Gofalwyr 2021 - Stori Anwen ar YouTube

Lansiwyd arolwg staff blynyddol y Bwrdd Iechyd ar Ddiwrnod Hawliau Gofalwyr ym mis Tachwedd 2021. Roedd yr arolwg a'r adborth a ddarparwyd gan y 102 o staff a ymatebodd iddo yn fodd i "fesur y tymheredd" a chael darlun gwerthfawr o effaith rolau gofalu ar ein staff sy'n dweud eu bod yn ofalwyr di-dâl. Dywedodd 52% fod eu rôl ofalu yn effeithio'n negyddol ar eu swydd a dywedodd 26% y bydd gwybod bod polisi penodol ar gyfer gofalwyr yn eu helpu i gyfuno eu gwaith a'u rolau gofalu. Dim ond 4% sydd wedi defnyddio'r Pasbort Gofalwyr. Bydd grŵp y Strategaeth Gofalwyr yn defnyddio adroddiad arolwg y staff sy'n ofalwyr i amlygu camau pellach y gellir eu cymryd i gryfhau'r cymorth ar gyfer staff sy'n gofalu, er enghraifft trwy weithio gyda'r timau Diwylliant a Rheolwyr Newid a'r Gweithlu.

Mae gan Gyngor Sir Ceredigion Swyddogion Iechyd a Llesiant sy'n cynnal grwpiau galw heibio ar gyfer staff sy'n ofalwyr di-dâl ynghyd â grwpiau ffocws i'r rhai sy'n gofalu am bobl sydd ag anghenion gofal penodol. Hefyd, cynhyrchwyd Pecyn Cymorth i Ofalwyr ar gyfer busnesau a mentrau bach er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o ofalwyr o safbwynt y cyflogai a'r cleient. Y nod yw helpu busnesau bach a chanolig i ystyried ffyrdd o gynorthwyo'r gofalwyr sy'n gweithio iddynt, neu ofalwyr sy'n defnyddio eu gwasanaethau, mewn modd sy'n fuddiol i'r naill ochr a'r llall.

Ym mis Ionawr, aeth Cyngor Sir Penfro ati i recriwtio Swyddog Comisiynu a Rheoli Contractau a fydd yn arwain ar faterion sy'n gysylltiedig â gofalwyr di-dâl yn yr awdurdod lleol. Mae'r aelod o staff wedi ymaelodi â Phorth Cyflogwyr i Ofalwyr er mwyn cyrchu deunydd i gynorthwyo staff ac wedi mynd i hyfforddiant Gofalwyr Cymru yn ei rôl fel Pencampwr Llesiant. Mae Cyngor Sir Penfro yn aelod o weithgor rhanbarthol Cyflogwyr i Ofalwyr ac mae hyn yn fodd i'r staff gydweithio a rhannu eu barn a'u syniadau gyda'r nod cyffredinol o gefnogi gofalwyr yn y gweithle.

## Gwneud gwahaniaeth i Ofalwyr

1. Improve the early identification and self-identification of Carers, including Young Carers and Young Adult Carers.
2. Ensure a range of services is available to support the well-being of Carers of all ages, in their life alongside caring.
3. Support Carers to access and maintain education, training and employment opportunities.

Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
West Wales Care Partnership



# Dan sylw – Cynhwysiant Digidol

Mae argyfwng COVID-19, yn fwy nag erioed efallai, wedi amlygu rôl allweddol gofalwyr di-dâl o ran atal gorlwytho gwasanaethau statudol. Fodd bynnag, mae incwm llawer o ofalwyr yn isel ac mae eu cyfrifoldebau gofalu yn golygu nad oes modd iddynt gynyddu eu hincwm trwy weithio'n llawn-amser. Mae'n bwysicach nag erioed fod pawb sy'n gymwys i gael cymorth yn cael gwybod am yr ystod lawn o hawliau sydd ar gael, gan gynnwys budd-daliadau a gwasanaethau a gomisiynir gan y Bwrdd Iechyd a'r awdurdodau lleol sy'n bartneriaid iddo, ac yn cael mynediad atynt.

Bu cynhwysiant digidol yn elfen allweddol o Raglen Drawsnewid y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ac mae Swyddogion Gofalwyr yn ddolen allweddol o ran cyfeirio gofalwyr di-dâl at gymorth a fydd yn eu helpu i ddefnyddio dyfeisiau digidol. Yn rhan o raglen ranbarthol y Gronfa Gofal Integredig, mae gwefan Cymorth i Ofalwyr Gorllewin Cymru, yn cael ei datblygu a'i chyd-gynhyrchu â gofalwyr di-dâl a darparwyr ledled y rhanbarth. Arweinir y gwaith hwn gan PAVS a disgwylir i'r wefan gael ei lansio ym Mehefin 2022.

Mae tîm Cysylltwyr Cymunedol PAVS yn cydlynu cynllun benthyca cyfrifiaduron llechen a ariennir ar lefel Clwstwr, sy'n fodd i gleifion meddygfa yn Sir Benfro gael mynediad at gyfrifiaduron llechen, dyfeisiau Alexa a data Wi-Fi. Yn ogystal, hwylusir cynllun Grantiau i Ofalwyr sy'n helpu pobl i brynu cyfarpar technoleg gwybodaeth i'w cynorthwyo â'u rôl ofalu.

Aeth tîm y Rhaglen Addysg i Gleifion (EPP) yn y Bwrdd Iechyd ati i lunio "padlet", sy'n cynnwys amrywiaeth eang o wybodaeth a chymorth defnyddiol i ofalwyr di-dâl. Mae'r system ddigidol hon hefyd ar gael trwy'r cyfryngau cymdeithasol ac yn cael ei hysbysebu i bawb sy'n mynd ar gyrsiau'r tîm EPP. https://padlet.com/cherryevans/x2pxykx6rrojzapo

Gan gydnabod rôl bwysig technoleg ddigidol, cyflwynodd Uned Gofalwyr Ceredigion gylchgrawn digidol i ofalwyr ar y cyfryngau cymdeithasol mewn ymgais i gyrraedd gofalwyr sydd heb eu hadnabod. Yn ogystal, lluniodd Cyngor Sir Ceredigion ffurflen ddigidol at ddefnydd gofalwyr sy'n cyflwyno cais i'r Gronfa Llesiant Gofalwyr a daeth adborth cadarnhaol i law gan ofalwyr a deimlai bod y broses yn syml ac yn hawdd ei defnyddio.

Yn Sir Benfro, bu Grantiau Gofalwyr o gymorth i rai gofalwyr brynu cyfarpar technoleg gwybodaeth i'w helpu â'u rôl ofalu. Hyrwyddir yr holl gyfleoedd i ofalwyr yn Sir Benfro trwy'r cyfryngau cymdeithasol; trwy'r rhestr dosbarthu negeseuon e-bost i ofalwyr, a thrwy'r padlet cefnogi dementia: https://padlet.com/cherryevans/x2pxykx6rrojzapo

Gwneud gwahaniaeth i Ofalwyr



# Y blaenoriaethau ar gyfer 2021-22

Mae gofalwyr a'r agenda gofalwyr yn flaenoriaeth yng Nghynllun Ardal Gorllewin Cymru a bydd yn parhau i gael sylw yn y Cynllun Ardal a ddiweddarwyd, y disgwylir ei gyhoeddi yn 2023. Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi mabwysiadu gofalwyr yn flaenoriaeth hanfodol, gan gydnabod yn benodol yr effaith drawsbynciol a'r cysylltiadau ar draws ei holl raglenni gwaith allweddol, gan gynnwys y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol newydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Mae camau gweithredu allweddol ein strategaeth gofalwyr ranbarthol yn seiliedig ar farn ac adborth gan ofalwyr a rhanddeiliaid allweddol ac yn ystod 2021/22 roedd yr adborth a gasglwyd gan ofalwyr wrth ddatblygu a diweddaru Asesiad Poblogaeth 2022 wedi cadarnhau bod y blaenoriaethau hyn yn dal i fod yn berthnasol. Bydd Grŵp Datblygu Gofal Gorllewin Cymru yn parhau i weithio i weithredu'r blaenoriaethau a amlinellwyd yn y Strategaeth Gofalwyr, sef:

- Mynd i'r afael â gofynion, bylchau a gwelliannau allweddol a nodwyd trwy'r Asesiad o Boblogaeth Gorllewin Cymru a'r amcanion yn y Cynllun Ardal
- Ymateb i flaenoriaethau'r Gweinidog ar gyfer cefnogi gofalwyr
- Ychwanegu at ac integreiddio amrywiaeth o fentrau gofalwyr ledled y rhanbarth er mwyn cynyddu'r gwelededd ynghylch anghenion gofalwyr di-dâl
- Sicrhau bod anghenion gofalwyr yn cael eu cynrychioli trwy'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Mae rhai o'n blaenoriaethau penodol ar gyfer 2022/23 yn cynnwys:

1. Cyfrannu at ddiweddaru Cynllun Ardal Gorllewin Cymru.
2. Parhau i ddatblygu a dosbarthu cardiau gofalwyr a'r manteision y mae'r rhain yn eu cynnig er mwyn annog gofalwyr o bob oed i ddweud eu bod yn ofalwyr a chael y cymorth ychwanegol sydd ar gael trwy'r gwasanaethau gwybodaeth ac allgymorth i ofalwyr.
3. Parhau i adolygu'r cymorth a gynigir i ofalwyr ifanc yng ngorllewin Cymru ac annog gofalwyr ifanc i ymgysylltu â'r broses er mwyn sicrhau y darperir gwasanaeth arloesol sy'n arddel arferion gorau.
4. Mynd ati i hyrwyddo aelodaeth o Gyflogwyr i Ofalwyr yn y rhanbarth, gan ganolbwyntio'n benodol ar gydweithio â gwasanaethau eraill yn y sector cyhoeddus ynghyd â busnesau bach a chanolig.
5. Parhau i annog ymwneud â'r cynllun achredu Buddsoddwyr mewn Gofalwyr a chefnogi cynnydd trwy lefelau'r wobr.
6. Gweithio gydag eraill, gan gynnwys gwasanaethau a gomisiynir, i fanteisio i'r eithaf ar botensial gwasanaethau digidol.
7. Datblygu llwyfan dwyieithog ar-lein (Cymorth i Ofalwyr Gorllewin Cymru) i gefnogi rhoi gwybodaeth a chyngor cyson a hygyrch i ofalwyr.
8. Cynorthwyo gofalwyr i ddefnyddio dyfeisiau digidol trwy ddarparu hyfforddiant a mynediad at dechnoleg.

# Casgliad

Mae gofalwyr yn ffocws sylfaenol yng Nghynllun Ardal Gorllewin Cymru 2018-2023, sy'n nodi anghenion ein cymunedau ledled gorllewin Cymru a'r modd y byddwn yn gweithio mewn partneriaeth i ymateb iddynt.  Bydd y Cynllun Ardal yn cael ei ddiweddaru yn ystod 2022/23, ond bydd cymorth i ofalwyr di-dâl yn parhau i fod yn un o’r nodweddion allweddol.

Rydym yn wynebu heriau digynsail ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol, mae gennym boblogaeth sy’n heneiddio ac mae angen darparu gwasanaethau mewn modd gwahanol wrth i ni ymateb i’r gwersi a ddysgwyd yn sgil pandemig COVID-19. Mae Grŵp Datblygu Gofalwyr Gorllewin Cymru wedi ymrwymo i gydweithio i ddarparu cymorth i ofalwyr yn ein cymunedau mewn ffyrdd newydd ac arloesol, yn ogystal â sicrhau bod anghenion gofalwyr yn cael eu hystyried ym mhob cam o'u taith iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn wedi rhoi trosolwg o'r ystod eang o weithgareddau sydd wedi bod yn mynd rhagddynt yng ngorllewin Cymru i wella canlyniadau ar gyfer gofalwyr.  Er bod yr adroddiad wedi canolbwyntio ar y gwaith a arweiniwyd trwy Grŵp Datblygu Gofalwyr Gorllewin Cymru a’r modd y defnyddiwyd cyllid Llywodraeth Cymru, y Gronfa Gofal Integredig a chyllid craidd gan sefydliadau partner i gefnogi’r gwaith hwn, cydnabyddir bod nifer o sefydliadau a grwpiau eraill yng ngorllewin Cymru sydd hefyd yn darparu cymorth a gwasanaethau gwerthfawr i ofalwyr.

# Cyngor Sir Ceredigion

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Cabinet |
| **DYDDIAD:** | 14 Chwefror 2023 |
| **LLEOLIAD:** | Hybrid / Siambr y Cyngor, Penmorfa |
| **TEITL:** | Adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach ynghylch Adroddiad Blynyddol Uned Gofalwyr Ceredigion 2021-2022 ac Adroddiad Blynyddol y Grŵp Gofalwyr Rhanbarthol 2021-2022 |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Darparu adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2023 |

**CEFNDIR:**

Ystyriodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach Adroddiad Blynyddol Uned Gofalwyr Ceredigion 2021-2022 ac Adroddiad Blynyddol y Grŵp Gofalwyr Rhanbarthol 2021-2022.

Roedd y Cynghorydd Alun Williams, Aelod Cabinet, ac Iwan Davies, Rheolwr Corfforaethol, yn bresennol i gyflwyno Adroddiad Blynyddol Uned Gofalwyr Ceredigion ac Adroddiad Blynyddol y Grŵp Gofalwyr Rhanbarthol ar gyfer 2021-2022.

Canmolwyd Susan Kidd, Swyddog Datblygu Gofalwyr, am gydlynu cynnwys yr adroddiad a dwyn y wybodaeth ynghyd mewn fformat proffesiynol sy'n hawdd ei ddarllen. Hefyd, canmolwyd Sara Humphreys, Rheolwr y Tîm, am ysgrifennu cynnwys yr adroddiad. Diolchwyd i weddill y swyddogion yn y Tîm Gofalwyr a Chymorth Cymunedol am eu cyfraniadau gwerthfawr.

**Ar ôl ystyried yr adroddiadau, cytunodd yr Aelodau i argymell y dylai'r Cabinet wneud y canlynol:**

- Derbyn Adroddiad Blynyddol Uned Gofalwyr Ceredigion ar gyfer 2021-2022 ac Adroddiad Blynyddol y Grŵp Gofalwyr Rhanbarthol ar gyfer yr un cyfnod.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelod Cabinet ac Iwan Davies a'i dîm am gyflwyno a darparu dau adroddiad cynhwysfawr. Yn ogystal, canmolodd a diolchodd i staff yr Uned Gofalwyr am eu gwaith gwych, yn enwedig yn ystod cyfnod anodd oherwydd y pandemig COVID-19.

**Y Cynghorydd Caryl Roberts**
***Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach***